Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod	24 Tachwedd 2021
Aelod / Swyddog Arweiniol	Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau / Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr adroddiad	Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad ac Emma Horan, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, Medi 2021

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad mis Medi o'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried canlyniadau'r adolygiad risg ddiweddaraf ac a ydynt yn fodlon gyda'r broses o reoli risg o fewn y Cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio yn cael sicrwydd bod proses rheoli risg y Cyngor yn cael ei weithredu yn y modd cywir.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Yr Uwch Dîm Arwain sydd yn llunio ac sy'n berchen ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol ochr yn ochr â'r Cabinet. Caiff ei hadolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn Briffio'r Cabinet.

4.2. Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol, cyflwynir y gofrestr ddiwygiedig i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

4.3. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Chwefror 2021. Mae'r papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, ar gael ar-lein.

4.4. Mae dull awch am risg y Cyngor wedi'i ddefnyddio yn y trafodaethau a gawsom gyda pherchnogion risg, a dadansoddir ein hamlygiad risg (yn seiliedig ar y sgôr) yn y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol (atodiad 1).

4.5. Yn ein hadolygiad mis Medi, rhoddwyd hefyd y camau a nodwyd yn adolygiad Archwilio Mewnol mis Mehefin o Reoli Risgiau Corfforaethol ar waith, megis nodi rheolyddion critigol ac ategol. Yn ogystal, bydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn dechrau 'sesiynau canolbwyntio ar risg' cyn bo hir. Bydd y sesiynau hyn yn rhoi mwy o amser i drafod â pherchnogion risg a chwestiynu'r risgiau sy'n ein poeni fwyaf, ac maent wedi'u dethol yn rhannol gan y 'bwlch' yn yr awch am risg (hynny ydi y bwlch rhwng dosbarthiad y risg a'n hawch am risg).

4.6. Mae nifer o ddiweddariadau wedi bod yn ymwneud â'r risgiau, eu perchnogion, teitlau, disgrifiadau, effeithiau / canlyniadau a chamau gweithredu. Mae nifer o'r risgiau wedi'u sgorio o'r newydd. Mae dwy risg newydd wedi'u cynnig. Gwnaed y newidiadau hyn i'r gofrestr risgiau ac fe'u nodir ar ddechrau pob risg yn atodiad 1.

4.7. I grynhoi:

- Risg 18: Mae'r risg nad yw buddion rhaglenni a phrosiectau yn cael eu gwireddu yn llawn wedi cynyddu yn ei thebygolrwydd o D2 - Risg Fawr: Annhebygol / Effaith Uchel i C2 - Risg Fawr: Posibl / Effaith Uchel.

- Risg 35: Mae'r risg y bydd yr enillion ar fuddsoddiad a gaiff Sir Ddinbych o'r Fargen Dwf Ranbarthol yn anghymesur wedi lleihau yn sylweddol, ac wedi'i ddileu. Mae agweddau o'r risg wedi'i huno â risg 18 er mwyn sicrhau craffu a rheoli parhaus.

- Risg 30: Mae'r risg nad yw gallu a sgiliau Uwch Arweinwyr i gynnal gwasanaeth a pherfformiad corfforaethol ar gael, wedi cynyddu yn ei

thebygolrwydd o D3 Risg Gymedrol: Annhebygol / Effaith Ganolig i C3 - Risg Gymedrol: Posibl / Effaith Ganolig.

- Risg 34: Mae'r risg na ellir bodloni'r galw am ofal arbenigol yn lleol wedi cynyddu o C2 - Risg Fawr: Posibl / Effaith Uchel i A2 – Risg Gritigol: Bron yn Bendant / Effaith Uchel.

- Risg 36: Mae risg Brexit wedi'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, gyda sgôr y risg gweddilliol yn cael ei hisraddio o B2 – Risg Gritigol: Tebygol / Effaith Uchel, i C2 – Risg Fawr: Posib / Effaith Uchel.

- Mae Risg 37 wedi ei newid er mwyn cyfeirio yn benodol at bwysigrwydd ymdrechion yn ehangach i leihau anghydraddoldeb ac amddifadedd ("Y risg nad oes gan bartneriaid yr adnoddau, blaenoriaethau cyfatebol neu ymrwymiad i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau a rennir, ac yn benodol, yn methu â lleihau anghydraddoldebau ac amddifadedd").

- Risg 43: Mae'r risg nad oes gan y Cyngor yr arian neu'r adnoddau i fodloni ei rwymedigaethau statudol, o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, wedi cynyddu mewn effaith o D3 – Risg Gymedrol: Annhebygol / Effaith Ganolig i D2 – Risg Fawr: Annhebygol/ Effaith Uchel.

- Risg 44: Mae'r risg y bydd Clefyd Coed Ynn yn Sir Ddinbych yn arwain at bryderon iechyd a diogelwch sylweddol sy'n cynrychioli risg bosib i fywyd, wedi lleihau yn ei thebygolrwydd o A2 - Risg Gritigol: Bron yn Bendant / Effaith Uchel i B2 - Risg Gritigol: Tebygol / Effaith Uchel.

- Risg 45: Mae'r risg na all y Cyngor gyflawni rhaglen y Cyngor a sefydliadau allanol o fewn yr adnoddau presennol, wedi'i ddiweddaru i ganolbwyntio ar newid hinsawdd yn unig ("Y risg bod y Cyngor yn methu â dod yn Gyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030").

- Risg 47 (Newydd): Y risg bod y Cyngor yn cael llai o ddylanwad a rheolaeth ar lefel leol o ganlyniad i Gydbwyllgor Corfforedig newydd Gogledd Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnig cyfleoedd i sefydlu dull strategol a rhanbarthol i ymdrin â'r swyddogaethau hyn er mwyn datblygu economi a chymunedau Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae yna risg nad oes digon o

eglurder, amser ac ymgysylltu er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn. I'r gwrthwyneb, mae yna risg y bydd y Cyngor yn rhoi llawer o ymdrech i mewn, ac na fydd yn derbyn enillion cymesur ar y buddsoddiad. Sgôr risg gweddilliol o D3 – Risg Gymedrol: Annhebygol / Effaith Ganolig (o fewn ein awch am risg).

- Risg 48 (Newydd): Y risg y bydd trafferthion recriwtio a chadw staff, sy'n arwain at golli arbenigedd a gallu, yn gwaethygu, gan arwain at wasanaeth gwael neu annigonol. Mae nifer o wasanaethau wedi cael trafferth recriwtio a chadw staff ers peth amser, yn benodol – ond heb fod yn gyfyngedig i – swyddi iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen hanfodol, a swyddi yn yr adran briffyrdd ac amgylchedd. Sgôr risg gweddilliol: B3 – Risg Fawr: Tebygol / Effaith Ganolig (o fewn ein awch am risg).

4.8 Awch am risg

- Yn ystod yr adolygiad hwn, gofynnwyd i bob perchennog risg ystyried eto a yw'r risg a gyflwynir yn gyson â'n datganiad awch am risg. Gofynnwyd i berchennog y risg ystyried yr holl effeithiau a phennu'r effaith fwyaf difrifol, er mwyn nodi lefel ein awch. Rydym hefyd wedi nodi'r cyfeiriad a ragwelir ar gyfer pob risg. Mae astudiaeth achos i'w gweld yn atodiad 3.

- Ar hyn o bryd, mae risgiau 1, 6, 13, 14, 21, 27, 33, 34, 36, 37, 43, 44 a 45 (gweler atodiad 1) yn anghyson â Datganiad Awch am Risg y Cyngor (atodiad 2). Mae'r rhain wedi'u hadolygu yn ystod trafodaethau â pherchnogion risg, a chytunwyd ar sgorau presennol y risgiau fel y bo'n briodol. Mae'r anghysondeb hwn yn cyfiawnhau eu bod angen eu cynnwys fel risgiau corfforaethol i'w monitro.

- Mae gennym gyfanswm o 21 risg ac mae 13 yn anghyson a'n awch am risg (62%). Roedd ein hadolygiad ym mis Chwefror 2021 yn cynnwys 11 risg (allan o gyfanswm o 20) a oedd yn anghyson â'n awch am risg, a bryd hynny roedd 55% o risgiau corfforaethol yn anghyson â datganiad awch am risg y Cyngor.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Diben y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yw nodi digwyddiadau posib yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae’r rheolyddion a chamau gweithredu a nodir felly’n hanfodol er mwyn cyflawni’r blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae’r gost o ddatblygu, monitro ac adolygu’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn cael ei gynnwys o fewn y cyllidebau presennol.

7. Beth yw’r prif gasgliadau o’r Asesiad Effaith Lles?

7.1. Mae’r ddogfen Gofrestr Risgiau Gorfforaethol hon yn nodi’r risgiau a’r camau lliniaru. Nid yw’r broses o ddatblygu ac adolygu’r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o’r nodau lles. Fodd bynnag, mae’n debyg y bydd yn ofynnol i wneud asesiad effaith lles ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy’n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgor Craffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda Pherchnogion Risg (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol), gan hefyd gynnwys mewnbwn gan swyddogion sy’n arwain ar gamau gweithredu pellach, er enghraifft. Yna trafodir y gofrestr gyda’r Uwch Dîm Arwain a’r Cabinet er mwyn cytuno a/neu wneud diwygiadau pellach. Yna caiff y gofrestr derfynol ei rhannu gyda’r Pwyllgor Craffu Perfformiad, a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â’r adolygiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Rhan 6, Pennod 2, Adran 81. Cyfrifoldeb pwyllgor archwilio’r awdurdod lleol yw ‘adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol’; ac i ‘lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny’.

11.2. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i weithdrefnau a phrosesau clir fod ar waith er mwyn rheoli risg yn effeithiol.